OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 51 (Cy. 19)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2022

*Gwnaed - - - - 19 Ionawr 2022*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 13A(4) a (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**) a pharagraffau 2 i 6 o Atodlen 1B iddi.

Yn unol ag adran 13A(8) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**2**).

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â chynllun gostyngiadau'r dreth gyngor a wneir ar gyfer blwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2022 neu ar ôl hynny.

(4) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "awdurdod bilio" yr ystyr a roddir i "billing authority" yn adran 1(2)(b) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992");

ystyr "cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor" ("*council tax reduction scheme*") yw cynllun a wneir gan awdurdod bilio yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013(**3**), neu'r cynllun sy'n gymwys yn ddiofyn yn rhinwedd paragraff 6(1)(e) o Atodlen 1B i Ddeddf 1992.

(**1**) 1992 p. 14. Amnewidiwyd adran 13A gan adran 10(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (p. 17) a mewnosodwyd Atodlen 1B gan adran 10(2) o'r Ddeddf honno ac Atodlen 4 iddi. Gweler adran 116 am y diffiniad o "prescribed".

(**2**) Mae'r cyfeiriad yn adran 13A(8) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), fel y'i diwygiwyd gan adran 9 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1) ac Atodlen 1 iddi.

(**3**) O.S. 2013/3029 (Cy. 301), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/66 (Cy. 6), O.S. 2014/825 (Cy. 83), O.S. 2015/44 (Cy. 3), O.S. 2015/971, O.S. 2016/50 (Cy. 21), O.S. 2017/46 (Cy. 20), O.S. 2018/14 (Cy. 7), O.S. 2019/11 (Cy. 5), O.S. 2020/16 (Cy. 2) ac O.S. 2021/34 (Cy. 9).

**Diwygiadau i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Cyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013**

**2.** Mae Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 10.

**3.**—(1) Mae rheoliad 28(5) (personau sydd i'w trin fel rhai nad ydynt ym Mhrydain Fawr) wedi ei ddiwygio yn unol â pharagraffau (2) i (5).

(2) Yn is-baragraff (e)—

(a) ar ôl paragraff (ii) hepgorer "neu";

(b) ar ddiwedd paragraff (iii) yn lle ";" rhodder ",";

(c) ar ôl paragraff (iii) mewnosoder—

"neu

(iv) caniatâd a roddwyd o dan Gynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan(**4**);".

(3) Ar ôl is-baragraff (k) hepgorer "neu".

(4) Ar ddiwedd is-baragraff (l) yn lle "." rhodder ";".

(5) Ar ôl is-baragraff (l) mewnosoder—

"(m) yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo yn unol â'r rheolau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (e), pan fo caniatâd o'r fath yn cael ei roi yn rhinwedd—

(i) y Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid(**5**), neu

(ii) y cynllun blaenorol ar gyfer staff cyflogedig lleol yn Affganistan (y cyfeirir ato weithiau fel y cynllun ex-gratia)(**6**); neu

(n) yn berson ym Mhrydain Fawr nad yw'n dod o fewn is-baragraff (e)(iv) neu (m) a adawodd Affganistan mewn cysylltiad â chwymp llywodraeth Affganistan a ddigwyddodd ar 15 Awst 2021."

**4.** Yn Atodlen 1 (penderfynu cymhwystra am ostyngiad: pensiynwyr), ym mharagraff 3 (didyniadau annibynyddion: pensiynwyr)—

(a) yn is-baragraff (1)(a), yn lle "£15.35" rhodder "£15.95";

(b) yn is-baragraff (1)(b), yn lle "£5.10" rhodder "£5.30";

(c) yn is-baragraff (2)(a), yn lle "£217.00" rhodder "£224.00";

(d) yn is-baragraff (2)(b), yn lle "£217.00", "£377.00" a "£10.20" rhodder "£224.00", "£389.00" a "£10.60" yn y drefn honno;

(e) yn is-baragraff (2)(c), yn lle "£377.00", "£469.00" a "£12.85" rhodder "£389.00", "£484.00" a "£13.35" yn y drefn honno.

**5.** Yn Atodlen 2 (symiau cymwysadwy: pensiynwyr)—

(a) yn lle'r Tabl ym mharagraff 1 (lwfans personol) rhodder—

(**4**) Cyhoeddwyd Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar 18 Awst 2021 ac fe'i cyhoeddwyd ar: https://www.gov.uk/guidance/afghan-citizens-resettlement-scheme.

(**5**) Cyhoeddwyd y Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar 29 Rhagfyr 2020 ac fe'i cyhoeddwyd ar: https://www.gov.uk/government/publications/afghan-relocations-and-assistance-policy/afghan-relocations-and-assistance-policy-information-and-guidance.

(**6**) Gweler Rhan 7 o'r rheolau a wnaed o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971 (p. 77); y rheolau perthnasol yw rheolau 276BA1 – 276BS2.

| *"Colofn (1)* | *Colofn (2)* |
|---|---|
| ***Person, cwpl neu briodas amlbriod*** | ***Swm*** |
| (1) Ceisydd sengl neu unig riant sydd wedi cyrraedd oedran pensiwn | £197.10 |
| (2) Cwpl pan fo un aelod neu'r ddau wedi cyrraedd oedran pensiwn | £294.90 |
| (3) Os yw'r ceisydd yn aelod o briodas amlbriod a bod un neu ragor o aelodau'r briodas wedi cyrraedd oedran pensiwn—<br>(a) ar gyfer y ceisydd a'r parti arall i'r briodas;<br>(b) ar gyfer pob priod ychwanegol sy'n aelod o'r un aelwyd â'r ceisydd. | £294.90<br><br>£97.80"; |

(b) yng ngholofn (2) o'r Tabl ym mharagraff 2(1) (symiau plentyn neu berson ifanc), yn lle "£66.90", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "£70.80";

(c) ym mharagraff 3 (premiwm teulu), yn lle "£17.45" rhodder "£17.85";

(d) yn y Tabl yn Rhan 4 (symiau'r premiymau a bennir yn Rhan 3), yn yr ail golofn—

(i) yn is-baragraff (1), yn lle "£67.30", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "£69.40" ac yn lle "£134.60" rhodder "£138.80";

(ii) yn is-baragraff (2), yn lle "£26.67" rhodder "£27.44";

(iii) yn is-baragraff (3), yn lle "£65.94" rhodder "£68.04";

(iv) yn is-baragraff (4), yn lle "£37.70" rhodder "£38.85".

**6.** Yn Atodlen 5 (diystyriadau cyfalaf: pensiynwyr), ar ôl paragraff 28C mewnosoder—

"**28D.** Unrhyw daliad ex gratia a wneir yn ôl disgresiwn Gweinidogion yr Alban o'r Cynllun Talu Ymlaen Llaw a sefydlwyd gan Weinidogion yr Alban mewn cysylltiad ag achosion hanesyddol o gam-drin plant mewn gofal(**7**).

**28E.** Unrhyw daliad gwneud iawn am gamweddau a wneir o dan Ran 4 o Ddeddf Gwneud Iawn am Gamweddau i Oroeswyr (Achosion Hanesyddol o Gam-drin Plant mewn Gofal) (Yr Alban) 2021(**8**)."

**7.** Yn Atodlen 6 (penderfynu cymhwystra am ostyngiad: personau nad ydynt yn bensiynwyr), ym mharagraff 5 (didyniadau annibynyddion: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

(a) yn is-baragraff (1)(a), yn lle "£15.35" rhodder "£15.95";

(b) yn is-baragraff (1)(b), yn lle "£5.10" rhodder "£5.30";

(c) yn is-baragraff (2)(a), yn lle "£217.00" rhodder "£224.00";

(d) yn is-baragraff (2)(b), yn lle "£217.00", "£377.00" a "£10.20" rhodder "£224.00", "£389.00" a "£10.60" yn y drefn honno;

(e) yn is-baragraff (2)(c), yn lle "£377.00", "£469.00" a "£12.85" rhodder "£389.00", "£484.00" a "£13.35" yn y drefn honno.

(**7**) Cyhoeddwyd y Cynllun Talu Ymlaen Llaw gan Lywodraeth yr Alban ar 25 Ebrill 2019 ac fe'i cyhoeddwyd ar: https://www.gov.scot/publications/financial-redress-for-survivors-of-child-abuse-in-care-advance-payment-scheme/.
(**8**) 2021 dsa 15.

**8.** Yn Atodlen 7 (symiau cymwysadwy: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

(a) yng ngholofn (2) o'r Tabl ym mharagraff 1 (lwfansau personol)—

(i) yn is-baragraff (1), yn lle "£79.60", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "£82.10" ac yn lle "£63.05" rhodder "£65.00";

(ii) yn is-baragraff (2), yn lle "£79.60" rhodder "£82.10";

(iii) yn is-baragraff (3), yn lle "£125.05" rhodder "£128.95";

(b) yng ngholofn (2) o'r Tabl ym mharagraff 3(1), yn lle "£66.90", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "£70.80";

(c) ym mharagraff 4(1)(b) (premiwm teulu), yn lle "£17.45" rhodder "£17.85";

(d) yn y Tabl yn Rhan 4 (symiau'r premiymau a bennir yn Rhan 3), yn yr ail golofn—

(i) yn is-baragraff (1), yn lle "£35.10" a "£50.05" rhodder "£36.20" a "£51.60" yn y drefn honno;

(ii) yn is-baragraff (2), yn lle "£67.30", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "£69.40" ac yn lle "£134.60" rhodder "£138.80";

(iii) yn is-baragraff (3), yn lle "£65.94" rhodder "£68.04";

(iv) yn is-baragraff (4), yn lle "£37.70" rhodder "£38.85";

(v) yn is-baragraff (5), yn lle "£26.67", "£17.20" a "£24.60" rhodder "£27.44", "£17.75" a "£25.35" yn y drefn honno;

(e) yn Rhan 6 (symiau'r elfennau)—

(i) ym mharagraff 23, yn lle "£29.70" rhodder "£30.60";

(ii) ym mharagraff 24, yn lle "£39.40" rhodder "£40.60".

**9.** Yn Atodlen 10 (diystyriadau cyfalaf: personau nad ydynt yn bensiynwyr), ar ôl paragraff 65 mewnosoder—

"**66.** Unrhyw daliad ex gratia a wneir yn ôl disgresiwn Gweinidogion yr Alban o'r Cynllun Talu Ymlaen Llaw a sefydlwyd gan Weinidogion yr Alban mewn cysylltiad ag achosion hanesyddol o gam-drin plant mewn gofal.

**67.** Unrhyw daliad gwneud iawn am gamweddau a wneir o dan Ran 4 o Ddeddf Taliadau Gwneud Iawn am Gamweddau i Oroeswyr (Achosion Hanesyddol o Gam-drin Plant mewn Gofal) (Yr Alban) 2021."

**10.** Yn Atodlen 13 (pob ceisydd: materion y mae'n rhaid eu cynnwys mewn cynllun awdurdod - materion eraill), ym mharagraff 5—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (7)(c) yn lle "." rhodder ";";

(b) ar ôl is-baragraff (7)(c) mewnosoder—

"(d) taliad a ddiystyrir o dan baragraff 28D neu 28E o Atodlen 5 (diystyriadau cyfalaf: pensiynwyr) neu baragraff 66 neu 67 o Atodlen 10 (diystyriadau cyfalaf: personau nad ydynt yn bensiynwyr)."

### Diwygiadau i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013

**11.** Mae'r cynllun a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013(**9**) wedi ei ddiwygio yn unol â rheoliadau 12 i 18.

(**9**) O.S. 2013/3035 (Cy. 303), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/66 (Cy. 6), O.S. 2014/825 (Cy. 83), O.S. 2015/44 (Cy. 3), O.S. 2015/971, O.S. 2016/50 (Cy. 21), O.S. 2017/46 (Cy. 20), O.S. 2018/14 (Cy. 7), O.S. 2019/11 (Cy. 5), O.S. 2020/16 (Cy. 2) ac O.S. 2021/34 (Cy. 9).

**12.**—(1) Mae paragraff 19(5) (personau sydd i'w trin fel rhai nad ydynt ym Mhrydain Fawr) wedi ei ddiwygio yn unol â pharagraffau (2) i (5).

(2) Ym mharagraff (e)—

(a) ar ôl is-baragraff (ii) hepgorer "neu";

(b) ar ddiwedd is-baragraff (iii) yn lle ";" rhodder ",";

(c) ar ôl is-baragraff (iii) mewnosoder—

"neu

(iv) caniatâd a roddwyd o dan Gynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan(**10**);".

(3) Ar ôl paragraff (k) hepgorer "neu".

(4) Ar ddiwedd paragraff (l) yn lle "." rhodder ";".

(5) Ar ôl paragraff (l) mewnosoder—

"(m) yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo yn unol â'r rheolau y cyfeirir atynt ym mharagraff (e), pan fo'r caniatâd hwnnw wedi ei roi yn rhinwedd—

(i) y Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid(**11**), neu

(ii) y cynllun blaenorol ar gyfer staff cyflogedig lleol yn Affganistan (y cyfeirir ato weithiau fel y cynllun ex-gratia)(**12**); neu

(n) yn berson ym Mhrydain Fawr nad yw'n dod o fewn paragraff (e)(iv) neu (m) a adawodd Affganistan mewn cysylltiad â chwymp llywodraeth Affganistan a ddigwyddodd ar 15 Awst 2021."

**13.** Ym mharagraff 28 (didyniadau annibynyddion: pensiynwyr a phersonau nad ydynt yn bensiynwyr)—

(a) yn is-baragraff (1)(a), yn lle "£15.35" rhodder "£15.95";

(b) yn is-baragraff (1)(b), yn lle "£5.10" rhodder "£5.30";

(c) yn is-baragraff (2)(a), yn lle "£217.00" rhodder "£224.00";

(d) yn is-baragraff (2)(b), yn lle "£217.00", "£377.00" a "£10.20" rhodder "£224.00", "£389.00" a "£10.60" yn y drefn honno;

(e) yn is-baragraff (2)(c), yn lle "£377.00", "£469.00" a "£12.85" rhodder "£389.00", "£484.00" a "£13.35" yn y drefn honno.

**14.** Ym mharagraff 111 (tystiolaeth a gwybodaeth)—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (7)(c) yn lle "." rhodder ";";

(b) ar ôl is-baragraff (7)(c) mewnosoder—

"(d) taliad a ddiystyrir o dan baragraff 28D neu 28E o Atodlen 8 (diystyriadau cyfalaf: pensiynwyr) neu baragraff 66 neu 67 o Atodlen 9 (diystyriadau cyfalaf: personau nad ydynt yn bensiynwyr)."

**15.** Yn Atodlen 2 (symiau cymwysadwy: pensiynwyr)—

(a) ym mharagraff 1 (lwfans personol), yn lle'r Tabl rhodder—

(**10**) Cyhoeddwyd Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar 18 Awst 2021 ac fe'i cyhoeddwyd ar: https://www.gov.uk/guidance/afghan-citizens-resettlement-scheme.

(**11**) Cyhoeddwyd y Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar 29 Rhagfyr 2020 ac fe'i cyhoeddwyd ar: https://www.gov.uk/government/publications/afghan-relocations-and-assistance-policy/afghan-relocations-and-assistance-policy-information-and-guidance.

(**12**) Gweler Rhan 7 o'r rheolau a wnaed o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971 (p. 77); y rheolau perthnasol yw rheolau 276BA1 – 276BS2.

| *“Colofn (1)* | *Colofn (2)* |
|---|---|
| ***Person, cwpl neu briodas amlbriod*** | ***Swm*** |
| (1) Ceisydd sengl neu unig riant sydd wedi cyrraedd oedran pensiwn | £197.10 |
| (2) Cwpl pan fo un aelod neu’r ddau wedi cyrraedd oedran pensiwn | £294.90 |
| (3) Os yw’r ceisydd yn aelod o briodas amlbriod a bod un neu ragor o aelodau’r briodas wedi cyrraedd oedran pensiwn— | |
| (a) ar gyfer y ceisydd a’r parti arall i’r briodas; | £294.90 |
| (b) ar gyfer pob priod ychwanegol sy’n aelod o’r un aelwyd â’r ceisydd. | £97.90”; |

(b) yng ngholofn (2) o’r Tabl ym mharagraff 2(1) (symiau plentyn neu berson ifanc), yn lle “£66.90”, ym mhob lle y mae’n digwydd, rhodder “£70.80”;

(c) ym mharagraff 3 (premiwm teulu), yn lle “£17.45” rhodder “£17.85”;

(d) yn y Tabl yn Rhan 4 (symiau’r premiymau a bennir yn Rhan 3), yn yr ail golofn—

(i) yn is-baragraff (1), yn lle “£67.30”, ym mhob lle y mae’n digwydd, rhodder “£69.40” ac yn lle “£134.60” rhodder “£138.80”;

(ii) yn is-baragraff (2), yn lle “£26.67” rhodder “£27.44”;

(iii) yn is-baragraff (3), yn lle “£65.94” rhodder “£68.04”;

(iv) yn is-baragraff (4), yn lle “£37.70” rhodder “£38.85”.

**16.** Yn Atodlen 3 (symiau cymwysadwy: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

(a) yng ngholofn (2) o’r Tabl ym mharagraff 1 (lwfansau personol)—

(i) yn is-baragraff (1), yn lle “£79.60”, ym mhob lle y mae’n digwydd, rhodder “£82.10” ac yn lle “£63.05” rhodder “£65.00”;

(ii) yn is-baragraff (2), yn lle “£79.60” rhodder “£82.10”;

(iii) yn is-baragraff (3), yn lle “£125.05” rhodder “£128.95”;

(b) yng ngholofn (2) o’r Tabl ym mharagraff 3(1) (symiau plentyn neu berson ifanc), yn lle “£66.90”, ym mhob lle y mae’n digwydd, rhodder “£70.80”;

(c) ym mharagraff 4(1)(b) (premiwm teulu), yn lle “£17.45” rhodder “£17.85”;

(d) yn y Tabl yn Rhan 4 (symiau’r premiymau a bennir yn Rhan 3), yn yr ail golofn—

(i) yn is-baragraff (1), yn lle “£35.10” a “£50.05” rhodder “£36.20” a “£51.60” yn y drefn honno;

(ii) yn is-baragraff (2), yn lle “£67.30”, ym mhob lle y mae’n digwydd, rhodder “£69.40” ac yn lle “£134.60” rhodder “£138.80”;

(iii) yn is-baragraff (3), yn lle “£65.94” rhodder “£68.04”;

(iv) yn is-baragraff (4), yn lle “£37.70” rhodder “£38.85”;

(v) yn is-baragraff (5), yn lle “£26.67”, “£17.20” a “£24.60” rhodder “£27.44”, “£17.75” a “£25.35” yn y drefn honno;

(e) yn Rhan 6 (symiau’r elfennau)—

(i) ym mharagraff 23, yn lle "£29.70" rhodder "£30.60";

(ii) ym mharagraff 24, yn lle "£39.40" rhodder "£40.60".

**17.** Yn Atodlen 8 (diystyriadau cyfalaf: pensiynwyr), ar ôl paragraff 28C mewnosoder—

"**28D.** Unrhyw daliad ex gratia a wneir yn ôl disgresiwn Gweinidogion yr Alban o'r Cynllun Talu Ymlaen Llaw a sefydlwyd gan Weinidogion yr Alban mewn cysylltiad ag achosion hanesyddol o gam-drin plant mewn gofal(**13**).

**28E.** Unrhyw daliad gwneud iawn am gamweddau a wneir o dan Ran 4 o Ddeddf Taliadau Gwneud Iawn am Gamweddau i Oroeswyr (Achosion Hanesyddol o Gam-drin Plant mewn Gofal) (Yr Alban) 2021(**14**)."

**18.** Yn Atodlen 9 (diystyriadau cyfalaf: personau nad ydynt yn bensiynwyr), ar ôl paragraff 65 mewnosoder—

"**66.** Unrhyw daliad ex gratia a wneir yn ôl disgresiwn Gweinidogion yr Alban o'r Cynllun Talu Ymlaen Llaw a sefydlwyd gan Weinidogion yr Alban mewn cysylltiad ag achosion hanesyddol o gam-drin plant mewn gofal.

**67.** Unrhyw daliad gwneud iawn am gamweddau a wneir o dan Ran 4 o Ddeddf Taliadau Gwneud Iawn am Gamweddau i Oroeswyr (Achosion Hanesyddol o Gam-drin Plant mewn Gofal) (Yr Alban) 2021."

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

19 Ionawr 2022

(**13**) Cyhoeddwyd y Cynllun Talu Ymlaen Llaw gan Lywodraeth yr Alban ar 25 Ebrill 2019 ac fe'i cyhoeddwyd ar: https://www.gov.scot/publications/financial-redress-for-survivors-of-child-abuse-in-care-advance-payment-scheme/.

(**14**) 2021 dsa 15.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 ("y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig") a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 ("y Rheoliadau Cynllun Diofyn") a wnaed o dan adran 13A(4) a (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac Atodlen 1B iddi.

Mae'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod bilio yng Nghymru wneud cynllun sy'n pennu'r gostyngiadau sydd i fod yn gymwys i symiau o'r dreth gyngor sy'n daladwy gan bersonau, neu gan ddosbarthau o bersonau, y mae'r awdurdod yn ystyried eu bod mewn angen ariannol. Mae'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig hefyd yn nodi'r materion y mae rhaid eu cynnwys mewn cynllun o'r fath.

Mae'r Rheoliadau Cynllun Diofyn yn nodi cynllun a fydd yn cael effaith, mewn cysylltiad ag anheddau sydd wedi eu lleoli yn ardal awdurdod bilio, os yw'r awdurdod yn methu â gwneud ei gynllun ei hun.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a'r Rheoliadau Cynllun Diofyn.

Mae rheoliad 3 yn mewnosod categorïau newydd yn y rhestr o bersonau nad ydynt i'w trin fel rhai nad ydynt ym Mhrydain Fawr at ddiben y meini prawf preswylio a nodir yn rheoliad 28 o'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig. Y categorïau newydd yw personau y rhoddir caniatâd iddynt o dan reolau mewnfudo yn rhinwedd y Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid neu'r cynllun blaenorol ar gyfer staff cyflogedig lleol yn Affganistan (a elwir hefyd y cynllun ex-gratia), personau y rhoddir caniatâd iddynt o dan Gynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan, a phersonau nad ydynt yn dod o fewn y cynlluniau hynny, ond a gyrhaeddodd Brydain Fawr o Affganistan mewn cysylltiad â chwymp llywodraeth Affganistan a ddigwyddodd ar 15 Awst 2021. Gwneir yr un diwygiadau i Reoliadau'r Cynllun Diofyn gan reoliad 12.

Mae'r diwygiadau a wneir i'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig gan reoliadau 4, 5(b) i (d), 7 ac 8 yn cynyddu rhai o'r ffigurau a ddefnyddir wrth gyfrifo a oes gan berson hawlogaeth i gael gostyngiad a'i peidio, a swm y gostyngiad hwnnw. Mae'r ffigyrau uwchraddedig yn ymwneud â didyniadau annibynyddion (sef addasiadau i uchafswm y gostyngiad y mae hawlogaeth gan berson i'w gael, er mwyn cymryd i ystyriaeth oedolion sy'n byw yn yr annedd ac nad ydynt yn ddibynyddion y ceisydd); ac â'r swm cymwysadwy mewn perthynas â chais am ostyngiad (sef y swm y cymherir incwm ceisydd ag ef, er mwyn penderfynu swm y gostyngiad y mae hawlogaeth gan y ceisydd i'w gael). Mae ffigurau eraill wedi eu huwchraddio hefyd i adlewyrchu newidiadau dros amser i hawlogaethau amrywiol. Gwneir yr un diwygiadau i'r Rheoliadau Cynllun Diofyn gan reoliadau 13, 15(b) i (d) ac 16.

Mae'r diwygiad a wneir gan reoliad 5(a) yn amnewid y tabl presennol ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig er mwyn dileu cyfeiriadau diangen at bersonau o dan 65 oed. Gwneir yr un diwygiad i'r Rheoliadau Cynllun Diofyn gan reoliad 15(a). Effaith y diwygiadau hyn yw estyn y gyfradd uchaf o lwfans personol i bensiynwyr.

Mae'r diwygiadau a wneir i'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig gan reoliadau 6, 9 a 10 yn darparu ar gyfer sut y mae taliadau digollediad a wneir gan Weinidogion yr Alban mewn perthynas ag achosion hanesyddol o gam-drin plant i'w cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu cymhwystra am

ostyngiad a swm unrhyw ostyngiad. Gwneir yr un diwygiadau i'r Rheoliadau Cynllun Diofyn gan reoliadau 14, 17 a 18.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.